Food Standards Agency

MHS Meat Hygiene Service

YR ASIANTAETH SAFONAU BWYD

DATGANIAD O AMCANION CYFFREDINOL AC ARFERION

Rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf

YR ASIANTAETH SAFONAU BWYD

DATGANIAD O AMCANION CYFFREDINOL AC ARFERION

Cyflwyniad y Cadeirydd

Mae'r ddogfen hon yn ddatganiad o'r amcanion cyffredinol y mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn bwriadu eu dilyn a'r arferion cyffredinol y mae'n bwriadu eu mabwysiadu i gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf Safonau Bwyd 1999.

Mae diogelwch bwyd yn fater sy'n effeithio ar bob dyn, dynes a phlentyn yn y Deyrnas Unedig. Mae'n un o brif flaenoriaethau'r Llywodraeth a'r gweinyddiaethau a ddatganolwyd. Yn union fel y mae'r rheiny sy'n cynhyrchu ac yn gwerthu bwyd yn gyfrifol am ei ddiogelwch, mae gennym ninnau'r defnyddwyr hefyd rôl i'w chwarae i sicrhau fod y bwyd rydym yn ei fwyta yn cael ei drin yn ddiogel. Fel Cadeirydd y corff newydd hwn, rwy'n cydnabod fod ennyn a chadw ymddiriedaeth a hyder defnyddwyr yn hanfodol os ydym i lwyddo. Fe fyddwn yn cael ein barnu ar y modd y gweithredwn ac rydym yn ymwybodol y bydd yn rhaid i'n hymddygiad fod yn unol â'n bwriadau. Ein gwerthoedd craidd - rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf, bod yn agored ac yn annibynnol - sydd yn sail i'r modd y cyflawnwn ein prif nod, sef diogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.

Y gwerthoedd craidd hyn sy'n pennu'r egwyddorion allweddol sy'n sail i bob agwedd ar ein gwaith ac sy'n disgrifio'r ymddygiad a ddisgwylir gan bob aelod o'r Bwrdd a phob aelod o staff yr Asiantaeth wrth gyflawni ei waith. Mae hyn yn cynnwys y Gwasanaeth Hylendid Cig sydd, fel Asiantaeth Weithredol o'r Asiantaeth Safonau Bwyd, yn rhan bwysig o'n corff. Mae gennym weithdrefnau a chanllawiau i helpu staff yr Asiantaeth i gymhwyso'r egwyddorion hyn yn effeithiol yn eu gwaith bob dydd. Byddwn yn cyhoeddi Codau Ymarfer mewn meysydd allweddol megis gweithredu'n agored a gorfodaeth - bydd modd ymgynghori ar y rhain a'u hadolygu.

Prif flaenoriaeth y Bwrdd fydd sicrhau bod eu holl staff yn ymwybodol o ysbryd yn ogystal â llythyren y datganiad hwn ac yn gweithredu'n unol â hynny. Adolygir y datganiad o dro i dro fel ei fod yn parhau i adlewyrchu ein syniadaeth ddiweddaraf a'i fod yn cael ei ddiwygio yng ngoleuni ein profiadau wrth weithredu'r Asiantaeth yn ymarferol.

Yr Athro Syr John Krebs
Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Hydref 2000

EIN HAMCANION CYFFREDINOL

1. Ein prif nod wrth gyflawni ein swyddogaethau yw diogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.

2. Mae ein hamcanion cyffredinol mewn perthynas â'r nod holl-gynhwysfawr hwn a'i swyddogaethau yn cwmpasu'r canlynol:

- Datblygu polisïau effeithiol mewn perthynas â diogelwch bwyd a buddiannau eraill defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Bydd y polisïau hyn yn seiliedig ar ymgynghoriad agos â'r rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio, a gydag unigolion a chyrff eraill sydd â diddordeb.

- Darparu cyngor, gwybodaeth a chymorth clir ac ymarferol i'n holl fudd-ddeiliaid. Ein budd-ddeiliaid yw'r unigolion a'r cyrff cynrychioliadol sydd â diddordeb uniongyrchol yn ein gweithgareddau, neu sy'n debygol o gael eu heffeithio ganddynt.

- Adeiladu a chynnal enw da am arbenigedd a rhagoriaeth mewn materion sy'n gysylltiedig â diogelwch bwyd a buddiannau eraill defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.

- Cynnal cysylltiadau gwaith effeithiol gyda gweinyddiaethau sydd wedi'u datganoli, cyrff cyhoeddus eraill a chyrff budd-ddeiliaid sydd â diddordeb mewn diogelwch a safonau bwyd, yn y DU a mannau eraill.

- Gwneud penderfyniadau a gweithredu yn gymesur â'r perygl, gan roi ystyriaeth i gostau a manteision.

- Sicrhau bod buddiannau defnyddwyr y DU mewn perthynas â bwyd yn cael eu hybu'n effeithiol o fewn yr Undeb Ewropeaidd ac mewn fforymau rhyngwladol eraill.

Mae'r amcanion hyn yn gymwys i bob elfen o'r gadwyn fwyd, o'r cynhyrchwyr cychwynnol i'r defnyddwyr olaf.

3. Trwy fod yn llais annibynnol a rhoi blaenoriaeth i iechyd y cyhoedd mewn perthynas â bwyd, byddwn yn sicrhau ein bod bob amser yn rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf. Trwy roi gwybodaeth i ddefnyddwyr, byddwn yn caniatáu iddynt wneud dewisiadau goleuedig ynglŷn â'r bwydydd sy'n gweddu orau i'w hanghenion. Trwy wneud gwybodaeth yn gyhoeddus, byddwn hefyd yn sicrhau bod budd-ddeiliaid yn gwybod y rhesymau dros y penderfyniadau, gan ganiatáu iddynt ymateb yn adeiladol.

4. Byddwn yn gosod ac yn cyhoeddi targedau i'n hunain a fydd yn cwmpasu ystod llawn ein gweithgareddau mewn perthynas â diogelwch a safonau bwyd, yn cynnwys ein gwaith ar labelu bwyd ac ar faetheg - meysydd rydym yn gweithio'n agos arnynt gydag Adrannau Iechyd. Amlinellir y targedau hyn ynghyd â'n hamcanion ariannol a pholisi mewn cyfres o ddogfennau a gyhoeddir yn cynnwys ein hadroddiad blynyddol, ein cynllun strategol sy'n cynnwys ein Cytundeb Cyflawni Gwasanaeth gyda'r Trysorlys, a'n cynllun busnes blynyddol.

EIN HARFERION GWAITH

5. Byddwn yn:

• **atebol –**	i Senedd San Steffan, Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon a'r defnyddwyr
• **agored ac yn ymgynghorol –**	Bydd ein gweithgareddau yn agored, yn dryloyw ac yn eglur
• **gyson** ac yn **gymesur –**	Bydd ein penderfyniadau'n seiliedig ar y cyngor gwyddonol gorau, gan gymryd i ystyriaeth costau a manteision
• mabwysiadu **arfer gorau –**	Byddwn yn chwilio am ac yn mabwysiadu'r arfer gorau ar gyfer ein holl weithgareddau, gan sicrhau yn arbennig fod ein camau gweithredu a'n penderfyniadau yn cael eu targedu'n effeithiol.

6. **Mae'r arferion cyffredinol hyn yn gymwys i bob agwedd ar ein gwaith, a disgwylir i'n holl staff weithio yn unol â hwy.**

Atebolrwydd

7. Bwrdd yr Asiantaeth fel cyfangorff sy'n gyfrifol am holl weithgareddau'r Asiantaeth ledled y DU. Mae'r Bwrdd yn atebol i'r Senedd trwy'r Ysgrifennydd Iechyd Gwladol, i Senedd yr Alban trwy Weinidogion yr Alban, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru trwy

Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac i Gynulliad Gogledd Iwerddon trwy Weinidog Gogledd Iwerddon dros Iechyd.

8. Byddwn yn cynhyrchu adroddiad blynyddol o'n holl weithgareddau a'n perfformiad a chyflwynir yr adroddiad gerbron y Senedd, Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

9. Rydym hefyd yn atebol i'r cyhoedd a byddwn yn rhoi gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod ein holl fudd-ddeiliaid yn gallu gweld a gwneud sylwadau ar y ffordd rydym yn cyflawni ein gwaith.

Bod yn Agored ac Ymgynghori

10. Rydym wedi ymrwymo i weithredu mewn ffordd agored a thryloyw. Fel corff, bydd modd i'n budd-ddeiliaid gysylltu â ni a byddwn ninnau yn cyfathrebu â hwy. Cofnodir ein penderfyniadau a'r wybodaeth sy'n sail iddynt a bydd modd cael mynediad iddynt, fel bod unrhyw gorff neu unigolyn yn gallu gwneud penderfyniadau goleuedig ynglŷn â'r ffordd rydym yn cyflawni ein swyddogaethau. Bydd ein Hadroddiad Blynyddol yn cynnwys adroddiad ar ein perfformiad mewn perthynas â'n polisïau o fod yn agored. Bydd ein Cod Ymarfer ar fod yn agored yn gosod allan yn fwy manwl sut y bwriadwn weithredu ein polisïau ar fod yn agored, yn cynnwys ein polisi ar gyhoeddi cyngor a gwybodaeth.

11. Byddwn yn ymgynghori'n helaeth ar ein gweithgareddau. Byddwn yn sicrhau bod pob parti perthnasol yn cael y cyfle i fynegi ei safbwynt, yn cynnwys cynrychiolwyr y rhai a effeithir gan unrhyw weithgaredd arfaethedig, ynghyd â'r cyhoedd. Rydym yn bwriadu gwneud yn fawr o effeithiolrwydd ein proses ymgynghori trwy ddefnyddio ystod o ddulliau ymgynghori, sy'n gymwys i'r mater a ystyrir, yn ogystal ag ymgynghori ysgrifenedig ffurfiol. Ein nod yw sicrhau ein bod yn gwrando'n iawn ac yn sefydlu deialog adeiladol. Cyhoeddir ein polisi ar ymgynghori.

12. Yn yr un modd, byddwn yn ceisio hyrwyddo cysylltiadau â chyrff cyhoeddus eraill sydd â chyfrifoldebau sydd a wnelont â diogelwch bwyd a buddiannau eraill defnyddwyr mewn perthynas â bwyd er mwyn sicrhau yr ymgynghorir â ninnau yn ein tro, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, ar bob mater perthnasol. Mae concordatiau yn grymuso ein perthynas ag adrannau eraill o'r llywodraeth ac mae'r rhain yn amlinellu'n glir sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd mewn meysydd sydd o ddiddordeb i bawb. Rydym yn disgwyl i awdurdodau cyhoeddus eraill ymgynghori â ni fel mater o arfer pan fo'u gweithgareddau yn debygol o effeithio ar ein cyfrifoldebau. Byddwn yn rhoi'r trefniadau angenrheidiol ar waith i sicrhau bod y broses honno mor hwylus â phosib.

13. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth agos â'r awdurdodau gorfodi er mwyn sicrhau ein bod yn gorfodi cyfraith bwyd yn effeithiol ac yn gyson.

Cyson a chymesur: agwedd yr Asiantaeth at risg

14. Byddwn yn datblygu ac yn cyhoeddi ein hagwedd at berygl. Yn hanfodol, byddwn yn cynnal polisi sy'n seiliedig ar yr egwyddorion canlynol. Rydym yn ymrwymo i fabwysiadu agwedd gyson yn ein holl benderfyniadau a'n camau gweithredu. Byddwn yn gwneud penderfyniadau ac yn gweithredu yn unol â'r risg. Wrth wneud hyn, byddwn hefyd yn cymryd i ystyriaeth natur a maint y risg, costau a manteision y gweithredu arfaethedig, ynghyd â'r wybodaeth a ddarperir gan y pwyllgorau ymgynghorol annibynnol perthnasol ac unrhyw ffynonellau arbenigedd addas eraill. Bydd ein penderfyniadau'n seiliedig ar gyngor gwyddonol cadarn, a byddwn yn comisiynu rhaglenni ymchwil a goruchwylio sydd wedi'u targedu'n benodol i fynd i'r afael â nodau ac amcanion ein polisi.

15. Rydym yn cydnabod bod ansicrwydd yn aml yn perthyn i'r wyddoniaeth sy'n sail i'n penderfyniadau a byddwn yn egluro unrhyw ansicrwydd ac yn esbonio'n eglur sut rydym wedi ei gymryd i ystyriaeth. Pan fo perygl o niwed difrifol i iechyd y cyhoedd, byddwn yn mabwysiadu agwedd ragofalus trwy weithredu mesurau addas i leihau peryglon i iechyd. Yn ymarferol, mae'n anodd cael sicrwydd gwyddonol ac ni fyddwn yn gadael i ddiffyg sicrwydd atal gweithredu'n gymesur. Yn yr un modd, ni fyddwn yn defnyddio diffyg sicrwydd fel esgus dros osgoi gweithredu'n bwrpasol er mwyn diogelu iechyd a lles y cyhoedd. Bydd gweithrediadau o'r fath yn cael eu harolygu os bydd tystiolaeth newydd ar gael.

Arfer Gorau

16. Bydd ein penderfyniadau a'n camau gweithredu yn cymryd i lawn ystyriaeth ddyletswyddau'r DU yn ôl cyfraith, cytuniadau a chytundebau cartref a rhyngwladol. Byddwn hefyd yn cymryd i ystyriaeth amgylchiadau penodol sy'n codi o natur ddatganoledig diogelwch a safonau bwyd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

17. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i ddulliau gwaith effeithiol ac effeithlon, ac mae gan ein Prif Weithredydd gyfrifoldeb statudol am sicrhau bod ein holl weithgareddau yn cael eu cyflawni yn y dull hwn. Rydym yn gwerthfawrogi ein gweithwyr ac rydym wedi ymrwymo i fod â chorff sy'n flaengar ac yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu staff. Byddwn

yn gwneud cais am achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl o fewn dwy flynedd i sefydlu'r Asiantaeth.

18. Yn ein holl weithgareddau, rydym yn cymryd i ystyriaeth ymrwymiad y Llywodraeth i ddatblygu cynaliadwy.

19. Rydym wedi gosod targedau gwasanaeth a byddwn yn cynhyrchu siartr mewn ymateb i fenter Gwasanaeth Cyntaf y Llywodraeth. Byddwn yn sefydlu trefn gwynion effeithiol a theg. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod ein gwasanaethau'n hygyrch i bawb, yn cynnwys pobl ag anghenion penodol. Byddwn yn sicrhau bod ein gweithrediadau'n unol ag arfer gorau yn y DU, ac yn ceisio dysgu gan arfer gorau mewn mannau eraill.

Rheoleiddio Gwell

20. Mae gwaith rheoleiddio'n agwedd bwysig o'n cylch gwaith a byddwn yn gyfrifol am baratoi deddfwriaeth yn ogystal â datblygu polisïau ar ddiogelwch a safonau bwyd. Ymgorfforir egwyddorion Rheoleiddio Gwell, fel yr amlinellir hwy yng Nghanllaw'r Llywodraeth ar Reoleiddio Gwell, yn ein harferion gwaith. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod yr arferion gwaith yn effeithiol ac yn effeithlon. Byddwn yn monitro gweithgareddau ein Hasiantaeth Weithredol, y Gwasanaeth Hylendid Cig, i sicrhau eu bod yn dilyn egwyddorion rheoleiddio gwell. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Adran Amaeth a Datblygu Gwledig yng Ngogledd Iwerddon, er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau a gyflawnant ar ein rhan yn adlewyrchu egwyddorion rheoleiddio gwell.

21. Byddwn yn arwyddo i egwyddorion gorfodi da, fel yr amlinellir hwy yng Nghoncordat Gorfodi Llywodraeth y DU.

22. Yn ogystal â'n gweithgareddau gorfodi, mae'r Ddeddf Safonau Bwyd 1999 hefyd yn rhoi i ni'r pwerau mynediad i gyflawni rhaglenni goruchwylio fel ein bod yn gallu casglu gwybodaeth ar ddiogelwch bwyd a materion cysylltiedig, a monitro camau gweithredu gorfodi perthnasol. Byddwn yn cyhoeddi canllaw ar sut y defnyddir y pwerau hyn.

EIN HADDEWID

23. Rydym yn addo rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf ym mhopeth a wnawn.

24. Byddwn yn ymdrechu i ennill a chadw ymddiriedaeth, parch a hyder ein holl fudd-ddeiliaid. Byddwn yn dysgu o brofiad ac yn ceisio ymateb er mwyn gwella'n barhaus y ffyrdd rydym yn gweithio.

25. Rydym bob amser yn anelu i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl.